# Mewnblannu falf aortig trawsgathetr ar gyfer stenosis aortig

26 Gorffennaf 2017

Mae'r driniaeth hon yn gweithio'n dda ar gyfer stenosis aortig ac nid oes unrhyw bryderon difrifol ynglŷn â pha mor ddiogel ydyw.

Mae stenosis aortig yn digwydd pan fydd y falf aortig yn culhau. Mae hyn yn lleihau llif y gwaed allan o'r galon. Gall gosod falf aortig newydd drwy gathetr (a elwir yn 'mewnblannu falf aortig trawsgathetr' neu TAVI gan ddefnyddio'r talfyriad Saesneg) fod yn ddewis amgen yn lle gosod falf aortig newydd drwy lawdriniaeth agored ar y galon. Y nod yw mewnosod y falf newydd drwy gathetr (tiwb tenau), fel arfer drwy bibell waed fawr ar ben y goes, i mewn i'r galon ac y tu mewn i'r falf gyfredol ddiffygiol.

Gall NHS Choices fod yn fan da i gael gwybod mwy. Mae gan ganllawiau triniaethau ymyriadol NICE fwy o wybodaeth am driniaethau a sut rydym yn eu hasesu.

### A yw'r driniaeth hon yn addas i mi?

Os cawsoch gynnig y driniaeth hon, dylai eich gweithwyr gofal iechyd proffesiynol drafod yr hyn y mae'n ei olygu, a dweud wrthych am y risgiau a'r manteision. Dylent drafod eich opsiynau gyda chi, a gwrando'n ofalus ar eich barn a'ch pryderon. Gall eich teulu fod yn rhan o'r broses hefyd, os ydych yn dymuno. Dylai hyn oll ddigwydd cyn y byddwch yn cytuno (rhoi cydsyniad) i gael y driniaeth. Dylech hefyd gael gwybod sut i gael rhagor o wybodaeth am y driniaeth. Darllenwch ragor am wneud penderfyniadau am eich gofal.

### Rhai cwestiynau i feddwl amdanynt

- Beth yn union yw'r driniaeth hon?
- Beth yw'r manteision posibl? Pa mor debygol ydw i o'u cael?

NICE 2017 All rights reserved. Subject to Notice of rights

- Beth yw'r risgiau neu'r sgîl-effeithiau? Pa mor debygol ydynt?
- Beth fydd yn digwydd os na fydd y driniaeth yn gweithio neu os aiff rhywbeth o'i le?
- Beth fydd yn digwydd os nad wyf eisiau'r driniaeth? A oes triniaethau eraill ar gael?

ISBN: 978-1-4731-2585-8

NICE 2017 All rights reserved. Subject to Notice of rights